**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 3158 (Cy.275)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Ar ôl i Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") gychwyn yng Nghymru, lluniodd cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol Cymru gynigion ar gyfer gweithredu naill ai trefniadau gweithrediaeth (y mae swyddogaethau penodol yr awdurdodau lleol hynny yn gyfrifoldeb gweithrediaeth odanynt) neu weithredu trefniadau amgen. Yn achos trefniadau gweithrediaeth, rhaid i weithrediaeth yr awdurdod lleol fod ar un o'r ffurfiau a bennir yn adran 11(2) i (4) o Ddeddf 2000.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gweithredu Trefniadau Gweithredol neu Amgen Gwahanol) (Cymru) 2002 ac yn galluogi awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth, i lunio cynigion i newid y trefniadau gweithrediaeth hynny neu i roi trefniadau amgen yn eu lle. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn galluogi awdurdod lleol, sy'n gweithredu trefniadau amgen i lunio cynigion i newid y trefniadau amgen hynny neu i roi trefniadau gweithrediaeth yn eu lle (rheoliad 2).

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â chynigion penodol, ar gyfer ymgynghori ac ar gyfer yr hyn y mae rhaid ei gynnwys yn y cynigion. Mae gofyniad, mewn perthynas â phob cynnig, i'r awdurdod lleol ystyried sut y gall y cynigion

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 3158 (W.275)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authorities (Changing Executive Arrangements and Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Following the commencement of Part II of the Local Government Act 2000 ("the 2000 Act") in Wales, Welsh county and county borough councils drew up proposals for the operation of either executive arrangements (under which certain functions of such local authorities are the responsibility of an executive) or the operation of alternative arrangements. In the case of executive arrangements, the local authority's executive must take one of the forms specified in section 11(2) to (4) of the 2000 Act.

These Regulations revoke the Local Authorities (Operation of Different Executive or Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2002 and enable a local authority in Wales, which is operating executive arrangements, to draw up proposals to change those executive arrangements or replace them with alternative arrangements. These Regulations also enable a local authority which is operating alternative arrangements to draw up proposals to change those alternative arrangements or to replace them with executive arrangements (regulation 2).

Regulation 3 makes provision, in respect of certain proposals, for consultation and for what must be included in the proposals. There is a requirement, in respect of all proposals, for the local authority to consider how the proposals may assist in securing

fod o gymorth i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd mae ei swyddogaethau yn cael eu harfer, gan dalu sylw i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Mae Rheoliad 4 yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Mae Rheoliad 5 yn nodi pryd y mae angen refferendwm cyn y caiff awdurdod lleol gymryd camau i roi ei gynigion ar waith. Rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo'r cynigion hynny yn gyntaf.

Mae Rheoliad 6 yn darparu bod rhaid i wybodaeth benodol gael ei hanfon i'r Cynulliad.

Mae Rheoliad 7 yn darparu bod rhaid i gynigion penodol, nad oes angen refferendwm ar eu cyfer, gael eu rhoi ar waith yn unol â'r amserlen a gynhwysir yn y cynigion. Mae hyn ar yr amod bod y Cynulliad wedi cymeradwyo'r cynigion hynny yn gyntaf.

Os bydd refferendwm yn gwrthod cynigion, rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithredu ei drefniadau presennol hyd nes yr awdurdodir ef i weithredu trefniadau eraill neu hyd nes y gwneir yn ofynnol iddo wneud hynny. Os bydd refferendwm yn cymeradwyo cynigion, rhaid i'r awdurdod lleol eu rhoi ar waith yn unol â'r amserlen a gynhwysir yn y cynigion (rheoliad 8).

Mae Rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniad gael ei basio gan awdurdod lleol er mwyn i'r awdurdod hwnnw weithredu trefniadau gwahanol.

Ar ôl gwneud penderfyniad o dan adran 29(1) neu 33(2) o Ddeddf 2000, fel y'i cymhwysir gan reoliad 9, rhaid bod copïau o ddogfen sy'n nodi'r darpariaethau yn y trefniadau arfaethedig ar gael i'r cyhoedd fwrw golwg drostynt ym mhrif swyddfa'r awdurdod lleol. Ar gyfer cynigion penodol, ac ar gyfer cynigion sydd wedi'u gwrthod drwy refferendwm, rhaid i wybodaeth benodedig gael ei chyhoeddi mewn un neu ragor o bapurau newydd (rheoliad 10).

Mae Rheoliad 11 yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag ymgynghori gan awdurdod lleol, at ddibenion rheoliad 3(1), cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

continuous improvement in the way its functions are exercised, having regard to economy, efficiency and effectiveness.

Regulation 4 provides that a local authority must comply with any directions given by the National Assembly for Wales ("the Assembly") for the purposes of these Regulations.

Regulation 5 sets out when a referendum is required before a local authority can take steps to implement its proposals. The Assembly must first approve those proposals.

Regulation 6 provides for certain information to be sent to the Assembly.

Regulation 7 provides for certain proposals, which do not require a referendum, to be implemented in accordance with the timetable included in the proposals. This is subject to the Assembly having first approved those proposals.

Where a referendum rejects proposals, the local authority must continue to operate its existing arrangements unless and until it is authorised or required to operate other arrangements. Where a referendum approves proposals, the local authority must implement them in accordance with the timetable included in the proposals (regulation 8).

Regulation 9 requires a resolution of the local authority in order for that authority to operate different arrangements.

After making a resolution under section 29(1) or 33(2) of the 2000 Act, as applied by regulation 9, copies of a document setting out the provisions of the proposed arrangements must be available for public inspection at the local authority's principal office. For certain proposals, and for proposals that have been rejected by a referendum, specified information must be published in one or more newspapers (regulation 10).

Regulation 11 makes provision in respect of consultation undertaken by a local authority, for the purposes of regulation 3(1), prior to the coming into force of these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 3158 (Cy.275)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004

*Wedi'u gwneud* *30 Tachwedd 2004*

*Yn dod i rym* *9 Rhagfyr 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 30(1), 33(5), (7) a (9), 105(2) a 106(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 9 Rhagfyr 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru ac felly mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at awdurdod lleol yn gyfeiriadau at awdurdod lleol yng Nghymru(**b**).

(3) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000; ac

ystyr "trefniadau amgen" ("*alternative arrangements*") yw'r trefniadau a bennir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001(**c**).

(a) 2000 p.22.

(b) *Gweler* adran 48(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i gael y diffiniad o "awdurdod lleol".

(c) O.S. 2001/2284 (Cy.173), a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/3711, 2002/810, 2003/155, 2003/2676, a 2004/3092.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 3158 (W.275)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authorities (Changing Executive Arrangements and Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2004

*Made* *30 November 2004*

*Coming into force* *9 December 2004*

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers given to it by sections 30(1), 33(5), (7) and (9), 105(2) and 106(1) of the Local Government Act 2000(**a**), hereby makes the following Regulations:

**Name, commencement, application and interpretation**

**1**.-(1) The name of these Regulations is the Local Authorities (Changing Executive Arrangements and Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2004 and they come into force on 9 December 2004.

(2) These Regulations apply in relation to Wales and, accordingly, references in these Regulations to a local authority are references to a local authority in Wales(**b**).

(3) In these Regulations -

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Local Government Act 2000;

"alternative arrangements" ("*trefniadau amgen*") means the arrangements specified in the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001(**c**); and

"the Assembly" ("*y Cynulliad*") means the National Assembly for Wales.

(a) 2000 c.22.

(b) *See* section 48(1) of the Local Government Act 2000 for the definition of "local authority".

(c) S.I. 2001/2284 (W.173), amended by S.I. 2001/3711, 2002/810, 2003/155, 2003/2676 and 2004/3092.

**Cynigion**

**2**.-(1) Caiff awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth ("trefniadau gweithrediaeth presennol"), yn rhinwedd penderfyniad o dan adran 29(1) o Ddeddf 2000 (gweithredu trefniadau gweithrediaeth a chyhoeddusrwydd ar eu cyfer), p'un a ydynt yn cael eu cymhwyso gan reoliad 9(1) neu beidio, lunio cynigion ar gyfer gweithredu trefniadau gweithrediaeth ("trefniadau gweithrediaeth gwahanol") sy'n wahanol i'r trefniadau gweithrediaeth presennol naill ai:

(a) mewn modd sy'n golygu disodli gweithrediaeth ar ei ffurf bresennol â gweithrediaeth ar ffurf wahanol(**a**); neu

(b) mewn modd nad yw'n dod o fewn is-baragraff (a).

(2) Caiff awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth presennol lunio cynigion ar gyfer gweithredu trefniadau amgen yn eu lle(**b**).

(3) Caiff awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen ("trefniadau amgen presennol"), yn rhinwedd penderfyniad o dan adran 33(2) o Ddeddf 2000 (gweithredu trefniadau amgen), p'un a ydynt yn cael eu cymhwyso gan reoliad 9(2) neu beidio, lunio cynigion ar gyfer gweithredu trefniadau amgen ("trefniadau amgen gwahanol") sy'n wahanol i'r trefniadau amgen presennol mewn unrhyw ffordd.

(4) Caiff awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen presennol lunio cynigion ar gyfer gweithredu trefniadau gweithrediaeth yn eu lle.

**Llunio cynigion**

**3**.-(1) Cyn llunio cynigion o dan reoliad 2(1)(a), (2) neu (4), rhaid i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i ymgynghori â'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol ac â phersonau eraill sydd â buddiant yn yr ardal honno.

(2) Rhaid i gynigion a lunnir o dan reoliad 2(1)(a), (2) neu (4) gynnwys -

(a) unrhyw fanylion am y trefniadau arfaethedig y mae'r Cynulliad yn cyfarwyddo y dylid eu rhoi;

(b) amserlen ynglyn â rhoi'r cynigion ar waith; ac

(c) manylion am unrhyw drefniadau trosiannol sy'n angenrheidiol ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith.

(a) Mae ffurfiau ar weithrediaeth wedi'u pennu yn adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

(b) Yn rhinwedd O.S. 2001/2284 (fel y'i diwygiwyd), caiff pob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru weithredu trefniadau amgen.

**Proposals**

**2**.-(1) A local authority which is operating executive arrangements ("existing executive arrangements"), by virtue of a resolution under section 29(1) of the 2000 Act (operation of, and publicity for, executive arrangements), whether or not as applied by regulation 9(1), may draw up proposals for the operation of executive arrangements ("different executive arrangements") which differ from the existing executive arrangements either:

(a) in a respect which involves replacing the existing form of executive with an executive which takes a different form(**a**); or

(b) in a respect which does not fall within sub-paragraph (a).

(2) A local authority which is operating existing executive arrangements may draw up proposals for the operation of alternative arrangements instead(**b**).

(3) A local authority which is operating alternative arrangements ("existing alternative arrangements"), by virtue of a resolution under section 33(2) of the 2000 Act (operation of alternative arrangements), whether or not as applied by regulation 9(2), may draw up proposals for the operation of alternative arrangements ("different alternative arrangements") which differ from the existing alternative arrangements in any respect.

(4) A local authority which is operating existing alternative arrangements may draw up proposals for the operation of executive arrangements instead.

**Drawing up proposals**

**3**.-(1) Before drawing up proposals under regulation 2(1)(a), (2) or (4), a local authority must take reasonable steps to consult local government electors for, and other interested persons in, the local authority's area.

(2) Proposals drawn up under regulation 2(1)(a), (2) or (4) must include -

(a) such details of the proposed arrangements as the Assembly may direct;

(b) a timetable with respect to the implementation of the proposals; and

(c) details of any transitional arrangements which are necessary for the implementation of the proposals.

(a) Forms of executive are specified in section 11 of the Local Government Act 2000.

(b) By virtue of S.I. 2001/2284 (as amended), all county and county borough councils in Wales may operate alternative arrangements.

(3) Wrth lunio cynigion o dan reoliad 2(1)(a) neu (4), rhaid i awdurdod lleol benderfynu -

(a) beth fydd ffurf y weithrediaeth; a

(b) i ba raddau y mae'r swyddogaethau a bennir mewn rheoliadau o dan adran 13(3)(b) o Ddeddf 2000 (swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth) i fod yn gyfrifoldeb y weithrediaeth(**a**).

(4) Wrth lunio cynigion o dan reoliad 2(2) neu 2(3), rhaid i awdurdod lleol benderfynu i ba raddau y mae ei swyddogaethau i'w dirprwyo i Fwrdd yr awdurdod(**b**).

(5) Wrth lunio cynigion o dan reoliad 2, rhaid i awdurdod lleol ystyried i ba raddau y byddai'r cynigion, o'u rhoi ar waith, yn debyg o fod o gymorth i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae swyddogaethau'r awdurdod yn cael eu harfer, gan dalu sylw i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

**Cyfarwyddiadau**

**4**. Rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Cynulliad at ddibenion y Rheoliadau hyn.

**Gofyniad i gynnal refferendwm**

**5**.-(1) Os bydd awdurdod lleol yn llunio cynigion o dan reoliad 2 a fyddai, petaent wedi'u gwneud o dan adran 25 o Ddeddf 2000 (Cynigion), yn ei gwneud yn ofynnol i refferendwm gael ei gynnal, mae darpariaethau adran 27(1)(a) o Ddeddf 2000 (Refferendwm yn achos cynigion sy'n cynnwys maer etholedig) i fod yn gymwys i'r cynigion hynny.

(2) Os yw'n ofynnol i awdurdod lleol gynnal refferendwm yn rhinwedd paragraff (1), rhaid iddo lunio amlinelliad o'r cynigion hefyd ("cynigion amlinellol wrth gefn") y mae rhaid iddynt gynnwys crynodeb o drefniadau gweithrediaeth presennol yr awdurdod lleol neu ei drefniadau amgen presennol, yn ôl y digwydd.

(3) Ni chaiff awdurdod lleol gynnal refferendwm o'r fath cyn y diweddaraf o'r dyddiadau canlynol-

(a) dyddiad cymeradwyaeth ysgrifenedig gan y Cynulliad o'r cynigion y mae'r refferendwm i fod i ymnwneud â hwy; a

(b) y dyddiad sy'n ddeufis ar ôl y dyddiad y mae copi o'r cynigion, y datganiad a'r cynigion amlinellol wrth gefn yn cael eu hanfon i'r Cynulliad yn unol â rheoliad 6.

(a) *Gweler* O.S. 2001/2291 (Cy.179), a ddiwygiwyd gan O.S. 2002/783, 2003/153, 2003/2676 a 2004/3093

(b) *Gweler,* yn benodol, reoliadau 7 i 11 of O.S. 2001/2284 (fel y'i diwygiwyd).

(3) In drawing up proposals under regulation 2(1)(a) or (4), a local authority must decide -

(a) which form the executive is to take; and

(b) the extent to which the functions specified in regulations under section 13(3)(b) of the 2000 Act (functions which are the responsibility of an executive) are to be the responsibility of the executive(**a**).

(4) In drawing up proposals under regulation 2(2) or 2(3), a local authority must decide the extent to which its functions are to be delegated to the Board of the authority(**b**).

(5) In drawing up proposals under regulation 2, a local authority must consider the extent to which the proposals, if implemented, are likely to assist in securing continuous improvement in the way in which the authority's functions are exercised, having regard to a combination of economy, efficiency and effectiveness.

**Directions**

**4**. A local authority must comply with any directions given by the Assembly for the purposes of these Regulations.

**Requirement to hold a referendum**

**5**.-(1) Where a local authority draws up proposals under regulation 2 which would, if they had been made under section 25 of the 2000 Act (Proposals), require the holding of a referendum, the provisions of section 27(1)(a) of the 2000 Act (Referendum in case of proposals involving elected mayor) are to apply to those proposals.

(2) Where a local authority is required to hold a referendum by virtue of paragraph (1), it must also draw up an outline of proposals ("outline fall-back proposals") which must consist of a summary of the local authority's existing executive arrangements or its existing alternative arrangements, as the case may be.

(3) A local authority may not hold such a referendum before the later of the following dates-

(a) the date of approval in writing by the Assembly of the proposals to which it is to relate; and

(b) the date which is two months after the date on which a copy of the proposals, statement and outline fall-back proposals are sent to the Assembly in accordance with regulation 6.

(a) *See* S.I. 2001/2291 (W.179), amended by S.I. 2002/783, 2003/153 , 2003/2676 and 2004/3093.

(b) *See,* in particular, regulations 7 to 11 of S.I. 2001/2284 (as amended).

**Gwybodaeth sydd i'w hanfon i'r Cynulliad**

**6**.-(1) Os yw cynigion yn cael eu llunio o dan reoliad 2(1)(a), (2) neu (4), rhaid i'r awdurdod lleol anfon i'r Cynulliad -

(a) copi o'r cynigion; a

(b) datganiad sy'n disgrifio-

(i) y camau a gymerodd yr awdurdod i ymgynghori â'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod, ac â phersonau eraill â buddiant ynddi;

(ii) canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw ac i ba raddau y mae'r canlyniad hwnnw wedi'i adlewyrchu yn y cynigion; a

(iii) y rhesymau pam y mae'r awdurdod yn credu y byddai ei gynigion, os caent eu gweithredu, yn debyg o sicrhau y byddai penderfyniadau'r awdurdod yn cael eu gwneud mewn ffordd effeithlon, dryloyw ac atebol.

(2) Os yw'n ofynnol i awdurdod lleol gynnal refferendwm yn rhinwedd rheoliad 5, rhaid iddo anfon i'r Cynulliad hefyd, ynghyd â'r dogfennau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1), gopi o'r cynigion amlinellol wrth gefn, a luniwyd o dan reoliad 5(2).

**Cynigion nad yw'n ofynnol cynnal refferendwm arnynt**

**7**.-(1) Os yw awdurdod lleol -

(a) yn llunio cynigion o dan reoliad 2(1)(a) neu (4) ac nad yw'n ofynnol cynnal refferendwm ar gyfer y cynigion hynny; neu

(b) yn llunio cynigion o dan reoliad 2(2),

rhaid i'r awdurdod, yn ddarostyngedig i baragraff (2), roi'r cynigion ar waith yn unol â'r amserlen a gynhwysir yn y cynigion.

(2) Rhaid i awdurdod lleol, y mae paragraff (1) yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi cynigion ar waith, beidio â gwneud hynny heb gymeradwyaeth ysgrifenedig y Cynulliad.

**Cynigion y mae'n ofynnol cynnal refferendwm arnynt**

**8**.-(1) Os canlyniad refferendwm a gynhaliwyd yn rhinwedd rheoliad 5 yw gwrthod y cynigion a oedd yn destun y refferendwm, rhaid i'r awdurdod lleol -

(a) peidio â rhoi'r cynigion hynny ar waith; a

(b) os yw'r awdurdod lleol yn gweithredu -

(i) trefniadau gweithrediaeth presennol (fel y maent wedi'u crynhoi yn ei gynigion amlinellol wrth gefn), parhau i weithredu'r trefniadau presennol hynny hyd nes yr awdurdodir ef i weithredu trefniadau gweithrediaeth gwahanol neu y gwneir yn

**Information to be sent to the Assembly**

**6**.-(1) Where proposals are drawn up under regulation 2(1)(a), (2) or (4), the local authority must send to the Assembly -

(a) a copy of the proposals; and

(b) a statement which describes -

(i) the steps which the authority took to consult the local government electors for, and other interested persons in, the authority's area;

(ii) the outcome of that consultation and the extent to which that outcome is reflected in the proposals; and

(iii) the reasons why the authority considers that its proposals would be likely, if implemented, to ensure that decisions of the authority are taken in an efficient, transparent and accountable way.

(2) Where a local authority is required to hold a referendum by virtue of regulation 5, it must also send to the Assembly, together with the documents referred to in paragraph (1), a copy of the outline fall-back proposals drawn up under regulation 5(2).

**Proposals not requiring a referendum**

**7**.-(1) Where a local authority -

(a) draws up proposals under regulation 2(1)(a) or (4) and a referendum is not required for those proposals; or

(b) draws up proposals under regulation 2(2),

the authority must, subject to paragraph (2), implement the proposals in accordance with the timetable included in the proposals.

(2) A local authority required by paragraph (1) to implement proposals must not do so without the approval in writing of the Assembly.

**Proposals requiring a referendum**

**8**.-(1) If the result of a referendum held by virtue of regulation 5 is to reject the proposals that were the subject of the referendum, the local authority -

(a) must not implement those proposals; and

(b) where the local authority is operating -

(i) existing executive arrangements (as summarised in its outline fall-back proposals), it must continue to operate those existing arrangements unless and until it is authorised or required to operate different executive arrangements or

ofynnol iddo eu gweithredu neu yr awdurdodir ef i weithredu trefniadau amgen yn lle ei drefniadau gweithrediaeth presennol(**a**);

(ii) trefniadau amgen presennol (fel y maent wedi'u crynhoi yn ei gynigion amlinellol wrth gefn), rhaid iddo barhau i weithredu'r trefniadau presennol hynny hyd nes yr awdurdodir ef i weithredu trefniadau amgen gwahanol neu hyd nes yr awdurdodir ef i weithredu trefniadau gweithrediaeth yn lle ei drefniadau amgen presennol neu y gwneir yn ofynnol iddo eu gweithredu(**b**).

(2) Os canlyniad refferendwm a gynhaliwyd yn rhinwedd rheoliad 5 yw cymeradwyo'r cynigion a oedd yn destun y refferendwm, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r cynigion hynny ar waith yn unol â'r amserlen a gynhwysir yn y cynigion.

**Y gofynion ar gyfer penderfyniad**

**9**.-(1) Mae is-adran (1) o adran 29 o Ddeddf 2000 (gweithredu trefniadau gweithrediaeth a chyhoeddusrwydd ar eu cyfer) i fod yn gymwys i weithredu trefniadau gweithrediaeth gwahanol yn yr un modd ag y mae'n gymwys i weithredu trefniadau gweithrediaeth yn wreiddiol neu yn lle'r trefniadau amgen presennol.

(2) Mae is-adran (2) o adran 33 o Ddeddf 2000 (gweithredu trefniadau amgen) i fod yn gymwys i weithredu trefniadau amgen gwahanol fel y mae'n gymwys i weithredu trefniadau amgen yn wreiddiol neu yn lle'r trefniadau gweithrediaeth presennol.

**Cyhoeddusrwydd ar gyfer trefniadau**

**10**.-(1) Os yw awdurdod wedi penderfynu gweithredu -

(a) trefniadau gweithrediaeth gwahanol; neu

(b) trefniadau amgen gwahanol,

rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl pasio penderfyniad o'r fath, sicrhau bod copïau o ddogfen sy'n nodi darpariaethau'r trefniadau hynny ar gael yn ei brif swyddfa i aelodau o'r cyhoedd fwrw golwg drostynt ar bob awr resymol.

(2) Os yw awdurdod wedi penderfynu -

(a) gweithredu trefniadau gweithrediaeth gwahanol sy'n cynnwys disodli gweithrediaeth ag un ar ffurf wahanol;

(b) gweithredu trefniadau amgen yn lle'r trefniadau gweithrediaeth presennol; neu

(a) *Gweler,* yn benodol, adrannau 30 a 33 i 36 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

(b) *Gweler*, yn benodol, adrannau 33 i 36 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

authorised to operate alternative arrangements in place of its existing executive arrangements(**a**);

(ii) existing alternative arrangements (as summarised in its outline fall-back proposals), it must continue to operate those existing arrangements unless and until it is authorised to operate different alternative arrangements or authorised or required to operate executive arrangements in place of its existing alternative arrangements(**b**).

(2) If the result of a referendum held by virtue of regulation 5 is to approve the proposals that were the subject of the referendum, the local authority must implement those proposals in accordance with the timetable included in the proposals.

**Requirements for a resolution**

**9**.-(1) Subsection (1) of section 29 of the 2000 Act (operation of, and publicity for, executive arrangements) is to apply in relation to operating different executive arrangements as it applies in relation to operating executive arrangements originally or in place of existing alternative arrangements.

(2) Subsection (2) of section 33 of the 2000 Act (operation of alternative arrangements) is to apply in relation to operating different alternative arrangements as it applies in relation to operating alternative arrangements originally or in place of existing executive arrangements.

**Publicity for arrangements**

**10**.-(1) Where a local authority has resolved to operate -

(a) different executive arrangements; or

(b) different alternative arrangements,

it must, as soon as practicable after passing such a resolution, secure that copies of a document setting out the provisions of those arrangements are available at its principal office for inspection by members of the public at all reasonable hours.

(2) Where a local authority has resolved to -

(a) operate different executive arrangements which involve replacing an executive with one which takes a different form;

(b) operate alternative arrangements in place of existing executive arrangements; or

(a) *See*, in particular, sections 30 and 33 to 36 of the Local Government Act 2000.

(b) *See,* in particular, sections 33 to 36 of the Local Government Act 2000.

(c) gweithredu trefniadau gweithrediaeth yn lle'r trefniadau amgen presennol,

rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl pasio penderfyniad o'r fath, gyhoeddi mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal hysbysiad sy'n cydymffurfio â darpariaethau paragarff (3).

(3) Rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (2) -

(a) datgan bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu'r trefniadau;

(b) datgan y dyddiad y mae'r awdurdod lleol i ddechrau gweithredu'r trefniadau hynny;

(c) disgrifio prif nodweddion y trefniadau hynny;

(ch) datgan bod copïau o ddogfen sy'n nodi darpariaethau'r trefniadau hynny ar gael ym mhrif swyddfa'r awdurdod lleol i aelodau o'r cyhoedd fwrw golwg drostynt ar unrhyw adeg a bennir yn yr hysbysiad; a

(d) pennu cyfeiriad prif swyddfa'r awdurdod lleol.

(4) Os bydd cynigion yr awdurdod lleol wedi'u gwrthod mewn refferendwm yr oedd yn ofynnol ei gynnal yn rhinwedd rheoliad 5(1), rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cynnal y refferendwm, mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal hysbysiad sydd -

(a) yn crynhoi cynigion yr awdurdod lleol a oedd yn destun y refferendwm;

(b) yn datgan bod refferendwm ar gynigion yr awdurdod lleol wedi gwrthod y cynigion hynny;

(c) yn nodi cynigion amlinellol wrth gefn yr awdurdod lleol; ac

(ch) yn datgan y bydd y trefniadau gweithrediaeth presennol neu'r trefniadau amgen presennol, yn ôl y digwydd, (fel y maent wedi'u crynhoi yng nghynigion amlinellol wrth gefn yr awdurdod lleol) yn parhau i weithredu.

**Ymgynghori cyn y dyddiad cychwyn**

**11**.-(1) Mae paragraff (2) yn gymwys -

(a) os yw'n ofynnol bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal o dan un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn; a

(b) os, o fewn y cyfnod o chwe mis sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym, y bydd ymgynghoriad wedi'i gynnal a hwnnw'n un a fyddai wedi bodloni gofynion y ddarpariaeth honno i unrhyw raddau pe bai

(c) operate executive arrangements in place of existing alternative arrangements,

it must, as soon as practicable after passing such a resolution, publish in one or more newspapers circulating in its area a notice which complies with the provisions of paragraph (3).

(3) The notice referred to in paragraph (2) must -

(a) state that the local authority has resolved to operate the arrangements;

(b) state the date on which the local authority is to begin operating those arrangements;

(c) describe the main features of those arrangements;

(d) state that copies of a document setting out the provisions of those arrangements are available at the local authority's principal office for inspection by members of the public at such times as may be specified in the notice; and

(e) specify the address of the local authority's principal office.

(4) Where a referendum, required by virtue of regulation 5(1), has rejected the local authority's proposals, the local authority must publish, as soon as practicable after the holding of the referendum, in one or more newspapers circulating in its area a notice which -

(a) summarises the local authority's proposals which were the subject of the referendum;

(b) states that a referendum on the local authority's proposals rejected those proposals;

(c) sets out the local authority's outline fall-back proposals; and

(d) states that the existing executive arrangements or existing alternative arrangements, as the case may be, (as summarised in the local authority's outline fall-back proposals) will continue to operate.

**Pre-commencement consultation**

**11**.-(1) Paragraph (2) applies if -

(a) consultation is required to take place under a provision of these Regulations; and

(b) within the period of six months ending on the day in which these Regulations come into force, consultation has taken place which would have satisfied the requirements of that

wedi bod mewn grym.

(2) Rhaid cymryd bod y gofynion hynny wedi'u bodloni i'r graddau hynny.

**Dirymu**

**12**. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gweithredu Trefniadau Gweithredol neu Amgen Gwahanol) (Cymru) 2002(**a**) drwy hyn wedi'u dirymu.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**)

30 Tachwedd 2004

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) O.S. 2002/2880 (Cy.276).

(b) 1998 p.38.

provision to any extent if it had been in force.

(2) Those requirements shall be taken to have been satisfied to that extent.

**Revocation**

**12**. The Local Authorities (Operation of Different Executive or Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2002(**a**) are hereby revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**)

30 November 2004

*John Marek*

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) S.I. 2002/2880 (W.276).

(b) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 3158 (Cy.275)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 3158 (W.275)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Changing Executive Arrangements and Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2004

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091041-9

9 780110 910413

£3.00

W176/12/04 ON